



**Goruchwylio,
hybu a hwyluso
cydymffurfiaeth â
safonau'r Gymraeg**



Cynnwys

Goruchwyllo Cydymffurfiaeth	3
Hybu Cydymffurfiaeth	4
Hwyluso Cydymffurfiaeth	4

Ymhellach i'n dogfen '[Safonau'r Gymraeg](#)' sydd yn esbonio'r hyn y mae Safonau'r iaith Gymraeg yn eu golygu i ni yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a sut rydym yn cydymffurfio â nhw, dyma fanylu ar y camau ychwanegol yr ydym wedi'u cymryd i oruchwylio, hybu a hwyluso cydymffurfiaeth â'r safonau.

Mae'r safonau a roddwyd i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi cael eu rhestru ar ein gwefan [yma](#), ac wedi'u rhannu'n bedwar categori:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llundio Polisi
- Gweithredu
- Cadw Cofnodion

Goruchwylio Cydymffurfiaeth

Rydym wedi penodi Swyddog Iaith Gymraeg yma yn y Gronfa sydd yn swydd llawn amser yn bennaf yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau Cymraeg. Y swyddog hwn yw'r pwynt cyswllt ar gyfer materion sydd yn ymwneud â'r Gymraeg a'r hysbysiad cydymffurfio. Gall staff ac aelodau'r cyhoedd gysylltu â'r Swyddog Iaith drwy anfon e-bost at cymorthcymraeg@cronfagymunedolylg.org.uk

Yn ogystal â'r Swyddog Iaith, mae gennym Gyfieithydd mewnol yn y Gronfa sydd hefyd â dealltwriaeth dda o'n safonau a mynediad at y mewnflwch uchod.

Mae'r Swyddog Iaith a'r Cyfieithydd yn cael eu rheoli gan y Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu sydd yn rhan o Dîm Rheoli Cymru ac yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ar lefel uwch pan fo angen.

Mae'r Swyddog Iaith yn adrodd i Bwyllgor Cymru'r Gronfa yn flynyddol i roi diweddariad ar sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau yn ogystal â'r pethau ychwanegol yr ydym yn eu gwneud i hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol ac allanol. Mae gennym ddau aelod ym mhwyllgor Cymru ar hyn o bryd (Medi 2023) sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein cyfarfodydd gyda defnydd cyfieithydd ar y pryd.

Rydym wedi ystyried safonau'r Gymraeg yng Nghynllun Busnes Cymru wrth sicrhau fod pob rhaglen newydd yn cydymffurfio â'n safonau. Mae'r cynllun hefyd yn nodi pwysigrwydd gwasanaeth dwyieithog er mwyn darparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon uchel.

Yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol y Gronfa yn adrodd yn ôl i Swyddfa'r Comisiynydd ar sut rydym yn bodloni ein safonau Cymraeg mae gennym ddiweddariad ar ein cydymffurfiaeth â'r safonau o fewn Adroddiad Blynyddol cyffredinol y Gronfa sydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU.

Yn y Gronfa, rydym yn pwysleisio ei bod hi'n gyfrifoldeb ar bawb ledled y Deyrnas Unedig i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. Ym mhob hysbyseb swydd ledled y Deyrnas Unedig, rydym yn cynnwys y frawddeg hon yn y Proffil Rôl:

Os yw'r rôl wedi'i lleoli yng Nghymru, neu'n cefnogi cwsmeriaid neu gydweithwyr yng Nghymru, mae angen dealltwriaeth o ddeddfwriaeth y Gymraeg a Safonau Cymraeg y Gronfa.

Rydym yn rhoi cyflwyniad i'r safonau a'n gwasanaeth Iaith Gymraeg fel rhan o'r anwythiad corfforaethol i'r holl staff sy'n ymuno â'r Gronfa ledled y Deyrnas Unedig. Mae modiwl Ymwybyddiaeth Iaith hefyd yn rhan o'r pecyn hyfforddiant craidd, Hanfodion Gweithle, i bob aelod o staff ledled y Deyrnas Unedig ei gwblhau yn flynyddol. Mae gan aelodau staff yng Nghymru'r opsiwn i gwblhau ein hyfforddiant craidd drwy gyfrwng y Gymraeg.

I oruchwylio cydymffurfiaeth â'n safonau gweithredu, mae gennym weithdrefn sy'n sicrhau y bydd unrhyw systemau ar-lein newydd at ddefnydd staff bellach yn cael eu caffael fel systemau dwyieithog, pryd bynnag y bo'n bosib, gan sicrhau y gall staff ddefnyddio'r systemau hyn yn naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y dyfodol.

Yn unol â'n safonau llunio polisi, mae gennym bolisi ar ddyfarnu grantiau y mae ein holl aelodau o staff yn ymwybodol ohono sydd i'w weld ar ein gwefan [yma](#).

Bydd unrhyw waith ymchwil y byddwn yn ei gomisiynu yn cynnwys gofynion safonol ar y Gymraeg o fewn y cytundeb e.e. y gallu i gynnal y gwaith ymchwil yn ddwyieithog ayb.

Mae cymal am weithredu o fewn Safonau'r Gronfa a chynnig gwasanaeth dwyieithog bob amser yn rhan o'n dogfennau tendro, pan fydd yn berthnasol i ni dendro i sefydliad allanol i wneud gwaith ymchwil ar ein rhan.

Hybu Cydymffurfiaeth

Er mwyn hybu ein cydymffurfiaeth â'n safonau cyflenwi gwasanaeth rydym yn gwneud defnydd da o nwyddau Iaith Gwaith a ddarperir gan Swyddfa'r Comisiynydd, megis logos finyl mawr i'w harddangos ar ein drysau, llinynnau gwddf a bathodynau i'n staff eu gwisgo. Gwnaethom sicrhau fod mynedfaoedd ein dwy swyddfa yn ei gwneud yn glir i

gwsmeriaid y gallent gyfathrebu â ni naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg a bod dewis iaith ar gael.

Rydym yn defnyddio nwyddau Iaith Gwaith yn ddigidol ac yn rhithiol hefyd, wrth ddefnyddio'r logo ar dempledi llofnod e-bost a thrwy roi'r logo ar luniau ein staff sy'n siarad Cymraeg.

Yn ystod ein ailfrandio yn 2019, fe wnaethom lunio siarter Iaith Gymraeg sy'n esbonio'n syml yr hyn y mae'r Safonau'n eu olygu i ni fel sefydliad ac i'n staff.

Rydym yn aml yn rhannu postiadau ar ein cyfryngau cymdeithasol sydd yn hybu prosiectau Cymraeg ac yn rhoi canllawiau i'n deiliaid grant ar sut i gynnig gwasaneth dwyieithog i sicrhau bod eu prosiectau yn hygyrch i bawb yn y gymuned, megis y [blog hwn](#).

Rydym hefyd yn cynnwys blogiau yn cynnig cyngor ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog ac yn hyrwyddo ein prosiectau Cymraeg yn rheolaidd yn ein e-lythyr newyddion dwyieithog misol i'n tanysgrifwyr e-byst.

Rydym yn gwneud defnydd da o'n cyfryngau cymdeithasol i hybu diwrnodau Cymraeg, gan gynnwys Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, sef ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg sy'n pwysleisio fod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i gael gwasanaethau Cymraeg heb orfod gofyn amdanynt.

Hwyluso Cydymffurfiaeth

Er mwyn hwyluso ein cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaeth mae pob un o'n ffurflenni cais am grant yn gofyn am iaith gyfathrebu ddewisol prif gyswllt ac uwch gyswllt y prosiect. Bydd y manylion hyn yn cael eu cofnodi ar ein system rheoli grantiau a bydd pob gohebiaeth a chyswllt yn yr iaith honno o hynny ymlaen.

Mae ein holl ddeunyddiau ysgrifenedig gan gynnwys cylchlythyrau, blogiau, datganiadau i'r wasg a hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.

Gyda chyfarfodydd rhithiol i gwsmeriaid neu bobl allanol megis digwyddiadau ariannu a hyfforddiant i brosiectau, rydym yn cynnig sesiynau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fo'n berthnasol gan fod digon o staff gennym i sicrhau hynny. Gallwn hefyd dal un sesiwn ddwyieithog wrth ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd pan yn addas a lle nad oes digon o siaradwyr Cymraeg i ddal sesiwn ar wahân.

Yn unol â'n safonau llunio polisi, byddwn yn gofyn am farn siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymreig yn ystod cyfnod datblygu rhaglenni ariannu ac yn profi'r deunyddiau ymgeisio gyda nhw cyn eu lansio. Pan fyddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb neu ar-lein, bydd y rhain yn cael eu cynnal yn ddwyieithog a bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu hannog i gyfrannu yn y Gymraeg.

Yn sgil ein safonau gweithredu, rydym yn gweithio'n agosach â'r tîm Adnoddau Dynol i ddatblygu dulliau recriwtio newydd ac rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o Gymry Cymraeg yr ydym yn eu denu i weithio i'r Gronfa ac mae dros hanner staff cyfarwyddiaeth Cymru bellach yn siaradwyr Cymraeg.

Mae gennym dudalen Gymraeg penodedig ar ein mewnrwyd ar gyfer staff, gyda gwybodaeth yn cael ei hychwanegu ati'n gyson, megis canllawiau ar gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau dwyieithog llwyddianus, templedi e-byst dwyieithog, trefniadau ar gyfer cyfieithu dogfennau ac yn y blaen.

Mae gan ein holl staff fynediad at hyfforddiant i ddysgu'r Gymraeg neu wella'u sgiliau Cymraeg, megis cyrsiau Cymraeg Gwaith a hyfforddiant Gloywi Iaith.